Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

# Ffurflen ymholiad llogi ar gyfer ffilmio a ffotograffiaeth

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (‘GLlTEF’, ‘ni’, ‘ein’) yn cynnig yr opsiwn i logi rhai lleoliadau llys a thribiwnlys ar draws Cymru, yr Alban a Lloegr, yn ddarostyngedig i delerau ac amodau archebu a ffioedd cysylltiol, ble bo'n briodol. Os oes gennych ddiddordeb mewn llogi lleoliad GLlTEF at ddiben ffilmio a/neu ffotograffiaeth, llenwch y ffurflen hon.

**1.2** Os yw eich cais ar gyfer llogi lleoliad mewn perthynas â digwyddiad, llenwch y **ffurflen ymholiad llogi ar gyfer digwyddiad** sydd ar gael yn https://www.gov.uk/guidance/hire-a-court-venue.

**1.3** Am wybodaeth bellach ar leoliadau GLlTEF ar gael ar gyfer llogi ewch i https://www.gov.uk/chwilio-am-lys-neu-dribiwnlys.

**1.4** Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno **o leiaf 16 wythnos cyn y dyddiad llogi arfaethedig** er mwyn cael y cymeradwyaeth angenrheidiol. Ni ellir derbyn ceisiadau a dderbynnir o fewn 16 wythnos o'r dyddiad llogi bwriedig.

**1.5** Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych ar y ffurflen hon i ymateb i'ch ymholiad.
Mae hyn yn cynnwys cysylltu â chi am eich cais a chyflwyno Cytundeb Archebu Dros Dro (fel yr eglurir ymhellach isod). Bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn unol â chyfraith diogelu data y DU. Am fwy o fanylion ar sut rydym yn defnyddio a diogelu eich data, gan gynnwys eich hawliau, gweler Siarter Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/personal-information-charter. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio gan staff yn unig at ddibenion delio gyda'ch ymholiad a bydd yn cael ei chadw'n ddiogel ar systemau y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol â'n polisïau cadw.


©Hawlfraint y goron 2026

**1.6** Isod mae crynodeb o amrywiol gamau'r broses archebu os nad ydych yn adran o'r llywodraeth neu'n gorff hyd braich a bod eich cais yn arwain at logi lleoliad. Gall rhai eiddo lesddaliad fod yn destun cymeradwyaeth ychwanegol a all ymestyn yr amserlenni.

**Mae'r holl amserlenni yn y tabl isod yn rhai tebygol yn unig ac nid ydynt yn creu unrhyw rwymedigaeth ar GLlTEF i gymryd unrhyw gamau erbyn amser penodol.**

| Cam | Manylion | Amserlenni tebygol |
|---|---|---|
| **Un** | Rydych yn cyflwyno'r ffurflen ymholiad hon | Dim hwyrach nag 16 wythnos cyn y cyfnod llogi arfaethedig yn y ffurflen ymholiad hon |
| **Dau** | Mae GLlTEF yn anfon:<br>• cytundeb yn nodi manylion yr archeb dros dro rhwng GLlTEF a chi, gan gynnwys y telerau a'r amodau sy'n ymwneud ag ymweliad cychwynnol gorfodol (‘**Cytundeb Archebu Dros Dro**’); ac<br>• anfoneb ar gyfer blaendal £40 nad yw'n cael ei ad-dalu (‘**Ffi Archebu Dro** ’) | 14 diwrnod ar ôl derbyn y ffurflen ymholiad hon |
| **Tri** | • Rydych yn llofnodi ac yn anfon y Cytundeb Archebu Dros Dro at GLlTEF<br>• Rydych yn caffael ac yn cynnal yr yswiriant gofynnol<br>• Rydych yn talu'r Ffi Archebu Dros Dro | Dim mwy na 30 diwrnod ar ôl derbyn y Cytundeb Archebu Dros Dro a'r anfoneb Ffi Archebu Dros Dro |
| **Pedwar** | Rydych yn trefnu ymweliad rhagarweiniol gorfodol | O fewn 14 diwrnod ar ôl talu Ffi Archebu Dros Dro |
| **Pump** | GLlTEF yn cyflwyno contract llogi | O fewn 7 niwrnod o'r ymweliad rhagarweiniol |
| **Chwech** | • Rydych yn cyflwyno'r contract llogi wedi'i lofnodi i GLlTEF<br>• Talu ffioedd llogi i GLlTEF | O fewn 30 niwrnod o'r ymweliad rhagarweiniol |

## 2. Manylion archebu

**2.1** Os gallwn gynorthwyo gyda'ch cais llogi, byddwch angen llofnodi Cytundeb Archebu Dros Dro a thalu Ffi Archebu Dros Dro.

**2.2** Nid yw'n ofynnol i adrannau'r Llywodraeth neu gyrff hyd braich dalu Ffi Archebu Dros Dro neu lofnodi Cytundeb Archebu Dros Dro. Fodd bynnag, rhaid i ymweliad amodol gael ei gynnal.

**2.3** Gallwch ofyn am gopi o Gytundeb Archebu Dros Dro a thempled contract llogi drwy anfon e-bost i hmctsvenuehire@justice.gov.uk. Bydd adrannau'r Llywodraeth neu gyrff hyd braich yn derbyn cytundeb  ar ffruf wahanol.

**2.4** Nid ydym yn derbyn unrhyw newidiadau i naill ai'r Cytundeb Archebu Dros Dro neu'r contract llogi ac ni fydd GLlTEF yn ymrwymo i gytundeb peidio â datgelu.

**2.5** Llenwch pob adran isod a dychwelwch y ffurflen i hmctsvenuehire@justice.gov.uk.

## 3. Manylion y ceisydd

**3.1** Enw'r sefydliad

**3.2** Enw trefnydd y digwyddiad

**3.3** Cyfeiriad e-bost

**3.4** Rhif cyswllt

## 4. Manylion llogi

**4.1.** Dyddiadau dechrau a terfyn llogi arfaethedig

**Dyddiad cychwyn**

Diwrnod Mis Blwyddyn

**Dyddiad terfyn**

Diwrnod Mis Blwyddyn

**4.2** Lleoliad a ffefrir a rhesymau dros y dewis

### 4.3 Gwybodaeth llogi

**4.3.1** Amseroedd gofynnol, gan gynnwys toriad o 30 munud gorfodol cyn ac ar ôl

**4.3.2** Cyfanswm y bobl sy'n mynychu

**4.3.3** Gofynion hygyrchedd

## 5. Manylion ffilmio a ffotograffiaeth

**5.1** Lleoliad ffilmio:

- ☐ Mewnol
- ☐ Allanol
- ☐ Y ddau

**5.2** Os ydych yn defnyddio sgript, atodwch rannau perthnasol wrth ddychwelyd y ffurflen i hmctsvenuehire@justice.gov.uk.

**5.3** Os nad ydych yn defnyddio sgript, llenwch yr adrannau isod:

**5.3.1** Diben y ffilmio/ffotograffiaeth

**5.3.2** Defnydd arfaethedig o'r ffilm

| |
|---|
| |

**5.3.3** Disgrifiad manwl o'r lluniau/cynnwys/ystafelloedd gofynnol

| |
|---|
| |

**5.4** A yw'r ffilmio yn cynnwys themâu sensitif, golygfeydd yn y llys neu actorion yn portreadu swyddogion cyfreithiol/llys?

☐ Ydy **Rhowch fanylion pellach yn y blwch isod.**

☐ Nac ydy

## 6. Gofynion gweithredol

**6.1** A fydd angen ffilmio min nos neu a fydd angen mynediad y tu allan i oriau arferol?

☐ Bydd

☐ Na fydd

**6.2** A fydd unrhyw strwythurau, platfform neu lwyfannu dros dro yn cael ei ddefnyddio?

☐ Bydd

☐ Na fydd

**6.3** Rhestrwch unrhyw offer sydd angen cymeradwyaeth diogelwch, fel camerâu arbenigol, offer goleuo, eitemau dyblyg.

**6.4** A fydd unrhyw offer sydd angen prawf PAT yn dod ar y safle?

- ☐ Bydd, **a darperir tystysgrifau/labeli PAT yn unol â thelerau'r contract llogi.**
- ☐ Na fydd

## 7. Gofynion parcio a mynediad

**7.1** A fydd angen lle parcio neu fynediad i gerbyd yn y lleoliad?

- ☐ Bydd, **a darperir manylion llawn pob cerbyd cyn llofnodi'r contract llogi.**
- ☐ Na fydd

## 8. Arlwyo (os yn briodol)

**8.1** A fydd gwasanaeth arlwyo ar gael?

- ☐ Bydd, **a darperir manylion cyflenwyr arlwyo ac offer sydd angen trydan cyn llofnodi'r contract llogi.**
- ☐ Na fydd

**8.2** Cadarnhewch na ddefnyddir fflamau noeth, gwaith poeth nac offer nwy.

- ☐ Cadarnhaf na ddefnyddir fflamau noeth, gwaith poeth nac offer nwy.

## 9. Gofynion yswiriant

**9.1** Rhaid i'r  holl adrannau sy'n llogi nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth neu gorff hyd braich roi tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyda therfyn indemniad dim llai na £15 miliwn.

**9.1.1** A ydych yn adran o'r llywodraeth neu'n gorff hyd braich?

- ☐ Ydym
- ☐ Nac ydym

**9.1.2** Os Na:

- ☐ Mae gennyf £15 miliwn o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a byddaf yn darparu copi
- ☐ Byddaf yn cael £15 miliwn o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yn darparu copi

**9.2** Rhaid i holl adrannau'r llywodraeth neu gyrff hyd braich sy'n llogi roi tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyflogwyr gyda therfyn indemniad o ddim llai na £5 miliwn.

**9.2.1** A ydych yn adran o'r llywodraeth neu'n gorff hyd braich?

- ☐ Ydym
- ☐ Nac ydym

**9.2.2** Os Na:

- ☐ Mae gennyf £5 miliwn o yswiriant atebolrwydd cyflogwyr a byddaf yn darparu copi
- ☐ Byddaf yn cael £5 miliwn o yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac yn darparu copi

## 10. Polisïau gorfodol GLlTEF

**10.1** Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall cyfyngiadau GLlTEF fel y nodwyd yn y polisi GLlTEF **'Mynd**

**drwy drefn diogelwch mewn adeilad llys neu dribiwnlys**' ar gael yn https://www.gov.uk/entering-court-or-tribunal-building.

**10.2** Cadarnhaf y byddaf yn cydymffurfio gydag Adran 41 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1925 ynglŷn â ffilmio mewnol https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo5/15-16/86/section/41.

**10.3** Deallaf bod ymweliad rhagarweiniol yn orfodol a threfnir ar ôl talu'r Ffi Archebu Dros Dro (os yn briodol).

**10.4** Deallaf y bydd angen tystiolaeth o yswiriant (os yn briodol).

## 11. Datganiad

Cadarnhaf fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn gywir ac rwy'n deall nad yw cyflwyno'r ffurflen hon yn gyfystyr â chymeradwyo'r llogi.

Llofnod

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn